

# **Cyngor Sir Ynys Môn**

## **Polisi Sŵn**

### **Fersiwn 1.0 Medi 2016**

#### **Am y polisi hwn**

Mae'r weithdrefn hon yn esbonio egwyddorion rheoli sŵn yn y lle gwaith ac fe'i bwriadwyd hi ar gyfer holl weithwyr Cyngor Sir Ynys Môn.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

## Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Medi 2016	
1.0	Mai 2019	Dim newidiadau
1.0	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Mai 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Iechyd a Diogelwch

Manylion cyswllt: 01248 752820

[Health&Safety@ynysmon.gov.uk](mailto:Health&Safety@ynysmon.gov.uk)

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Cynnwys

- 1.0 Rhagarweiniad
- 2.0 Diffiniad
- 3.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau
- 4.0 Camau Ataliol yn y Lle Gwaith
- 5.0 Cyfrifoldebau

## 1.0 Rhagarweiniad

Yn unol â Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith 2005, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd gofal i ostwng risgiau i iechyd sy'n codi o fod yn agored i sŵn yn y lle gwaith ac asesu'r risgiau i staff sy'n codi o sŵn yn y gwaith. Bydd y Cyngor yn darparu offer diogelu clyw addas oni fedr ostwng y risg ac yn gwneud yn siŵr nad yw'r sŵn yn uwch na'r lefelau a ganiateir.

## 2.0 Diffiniad

Math o ynni yw sŵn yn ei hanfod. Mae'r ynni yn cael ei drawsyrnu trwy'r aer fel tonfeddi o bwysau. Gall y glust synhwyro'r tonfeddi hyn a'u clywed fel sain neu sŵn. Mae sŵn fel arfer yn golygu sain nas dymunir ar lefel eithafol neu ynni acwstig clywadwy sy'n cael effaith ar les ffisiolegol neu seicolegol y sawl sy'n agored iddo.

## 3.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau

**Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1974:** Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal ar gyfer iechyd, diogelwch a lles y gweithwyr pan fônt yn eu gwaith ac at bobl eraill y gall eu gweithgareddau gael effaith arnynt.

**Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 2002 fel ai diwygiedig :** Rhaid i gyflogwyr roi gwybod i'r holl weithwyr, gan gynnwys gweithwyr ifanc, am y risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch a nodwyd gan asesiadau risg, a'r mesurau a sefydlwyd i'w rheoli.

**Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005:** Yn unol â Rheoliadau Sŵn 2005, rhaid i gyflogwyr rwystro neu ostwng risgiau i iechyd a diogelwch sy'n codi o fod yn agored i sŵn yn y gwaith.

## 4.0 Camau Ataliol yn y Lle Gwaith

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau y bydd y risg o niwed i glyw gweithwyr sy'n gweithio gydag offer sŵn neu mewn amgylchedd swnllyd yn cael ei gostwng i'r eithaf. Rhaid nodi, asesu a rheoli'r holl risgiau sŵn i ddiogelu gweithwyr rhag bod yn agored i lefelau sŵn yr ystyrir eu bod yn niweidiol yn ôl Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005.

#### **Rheoliad 4: Terfynau sŵn a lefelau gweithredu**

Dan Reoliad 4 Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005, mae dyletswydd ar gyflogwyr i gymryd camau penodol ar lefelau gweithredu arbennig. Mae'r rhain yn ymwneud â lefelau sŵn y mae gweithwyr yn agored iddynt ar gyfartaledd dros ddiwrnod neu wythnos waith; a'r sŵn uchaf (pwysau sŵn uchaf) y mae gweithwyr yn agored iddynt mewn diwrnod gwaith.

#### **Terfynau sŵn a lefelau gweithredu**

Y lefelau gweithredu ar gyfer y terfynau isaf yw:

- 80 dB y dydd neu'r wythnos
- Pwysau sŵn uchaf o 135 dB

Y lefelau gweithredu ar gyfer y terfynau uwch yw:

- 85 dB y dydd neu'r wythnos
- Pwysau sŵn uchaf o 137 dB

Y terfynau o ran bod yn agored i sŵn yw:

- 87 dB y dydd neu'r wythnos
- Pwysau sŵn uchaf o 140 dB

Gall bod yn agored i sŵn ar y fath lefel achosi problemau fel aflonyddwch, ymyriad a straen. Cymerir yr holl gamau rhesymol i ostwng lefelau sŵn cyn ised ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys, os oes angen, sicrhau bod gweithwyr yn agored i sŵn am lai o amser i sicrhau na fyddir yn mynd dros ben y terfyn ar gyfer diwrnod gwaith arferol o 8 awr.

#### **Rheoliad 5: Asesu**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn asesu lefelau sŵn yn rheolaidd ac yn cynnal arolygon lefelau sŵn mewn perthynas â manau, prosesau ac offer swnllyd, a hynny er mwyn asesu'r lefelau sŵn lle mae gweithwyr yn debygol o fod yn agored i'r lefelau gweithredu is neu uwch. Caiff asesiadau ac arolygon eu cofnodi a'u diweddarau'n rheolaidd, yn arbennig pan fo newidiadau mewn arferion gweithio yn achosi newidiadau i'r lefelau sŵn y mae gweithwyr yn agored iddynt.

Bydd yr asesiad risg yn sicrhau y bydd y meysydd isod yn cael sylw:

- Nodi'r gweithwyr sy'n agored i sŵn yn y gwaith;
- Rhoi i weithwyr y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cyfarwyddiadau angenrheidiol;

- Adolygu'r asesiad bob blwyddyn, neu pan fo offer neu ddeddfwriaeth yn newid;
- Cadw cofnod o'r asesiad;

Rhaid i reolwyr sy'n cynnal asesiad risg gofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad sŵn cyn gynted ag y bo modd ar ôl cynnal yr asesiad. Rhaid i hyn gynnwys y mesurau a gymerwyd / y bwriedir eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir gyda gofynion Rheoliad 6: Cael Gwared ar neu Reoli Lefelau Sŵn yn y Lle Gwaith, Rheoliad 7: Diogelu Clyw a Rheoliad 10: Gwybodaeth, Hyfforddiant a Chyfarwyddiadau.

### **Rheoliad 6: Cael Gwared ar Sŵn / Rheoli Sŵn**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau y ceir gwared ar y risg o fod yn agored i sŵn yn ffynhonnell y sŵn ei hun neu, onid yw hynny'n ymarferol resymol, bydd yn sicrhau bod y sŵn yn cael ei ostwng i'r lefel isaf sy'n rhesymol ymarferol.

Os yw unrhyw weithwyr yn debygol o fod yn agored i sŵn ar lefel sy'n cyfateb i neu sy'n uwch na'r lefel gweithredu uchaf ar gyfer sŵn, bydd rheolwyr yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bod y gweithwyr hynny'n agored i'r sŵn am gyfnodau sydd gyn lleied â phosib trwy sefydlu a gweithredu rhaglen o fesurau sefydliadol a thechnegol.

### **Rheoliad 7: Diogelu Clyw**

Mae'r Cyngor yn derbyn mai rhywbeth a wneir pan fo popeth arall wedi methu yw defnyddio offer diogelu clyw, ac mae'n ymrwymedig i barhau i geisio a chyflwyno dulliau eraill o sicrhau bod gweithwyr yn agored i sŵn am gyn lleied o amser â phosib pryd bynnag y bydd modd gwneud hynny yn y dyfodol. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio gyda Rheoliad 7 dan y Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith 2005 trwy sicrhau bod yr awdurdod yn:

- Darparu offer diogelu clyw i'w gweithwyr;
- Darparu offer diogelu clyw i weithwyr a sicrhau eu bod yn eu defnyddio'n gywir pan fo'r lefelau sŵn yn uwch na'r lefelau uchaf ar gyfer gweithredu;
- Nodi ardaloedd diogelu clyw e.e. ardaloedd lle mae'n rhaid defnyddio offer diogelu clyw a rhaid marcio'r fath ardaloedd gydag arwyddion os oes modd;
- Rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i weithwyr ynghylch sut i ddefnyddio a gofalu am eu hoffer diogelu clyw a gwybodaeth hefyd am ba bryd y dylent eu defnyddio.
- Sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio ac yn cynnal offer diogelu clyw yn gywir;
- Rhoi cyngor ynghylch dewis offer diogelu clyw addas;
- Rhoi cyngor ynghylch cynnal a thrwsio/adnewyddu offer diogelu clyw

## **Rheoliad 8: Cynnal a Defnyddio Offer Diogelu Clyw**

Er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliad 8 Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith 2005, bydd rheolwyr yn sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, bod unrhyw beth a ddarperir i weithwyr i ddiogelu eu clyw yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau, yn gweithio'n effeithiol a'i fod wedi'i gynnal yn dda.

Rhaid i weithwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau statudol trwy sicrhau bod eu hoffer diogelu clyw yn gweithio'n effeithiol, gan roi sylw i'r isod:

- Sicrhau bod yr offer mewn cyflwr da ac yn lân;
- Sicrhau nad yw seliau'r clustgapiau wedi'u difrodi;
- Sicrhau nad yw'r bandiau pen wedi llacio;
- Sicrhau nad yw'r offer wedi'i altro'n answyddogol;
- Sicrhau bod y plygiau clust cywasgadwy yn feddal, yn lân ac yn ystwyth;
- Os darganfyddir unrhyw ddiffyg(ion) yn yr offer diogelu clyw rhaid rhoi gwybod i'r rheolydd llinell cyn gynted ag y bo modd.

## **Rheoliad 9: Goruchwylio Iechyd**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn goruchwylio iechyd ei holl weithwyr sy'n debygol o fod yn agored i sŵn yn aml ar lefel sy'n cyfateb i'r lefelau gweithredu uwch neu weithwyr sy'n wynebu risg am unrhyw reswm. Bydd trefniadau goruchwylio ar gyfer gweithwyr y Cyngor yn cychwyn cyn y bydd y gweithwyr yn agored i'r sŵn am y tro cyntaf (e.e. ar gyfer gweithwyr newydd neu'r rheini sy'n newid swyddi) a hynny er mwyn sefydlu gwaelodlin.

Fodd bynnag, gellir gwneud trefniadau goruchwylio ar unrhyw adeg ar gyfer gweithwyr sydd eisoes yn agored i sŵn. Yna cynhelir cyfres o archwiliadau, bob blwyddyn fel arfer, am y ddwy flynedd gyntaf o gyflogaeth, ac yna bob tair blynedd (er efallai y byddai'n rhaid gwneud hynny'n amlach os canfuwyd unrhyw broblemau gyda'r clyw neu os yw'r risg o ddifrod i'r clyw yn uchel).

Pwrpas y trefniadau goruchwylio iechyd yw chwilio am arwyddion cynnar o ddifrod i glyw gweithwyr; gweithredu mesurau rheoli i rwystro'r niwed rhag gwaethygu a hefyd i asesu a yw'r mesurau rheoli yn gweithio.

Os yw'r asesiad risg sŵn yn nodi bod gweithwyr mewn perygl o fod yn agored i sŵn neu'n debygol o fod yn agored i sŵn, bydd rheolwyr yn sicrhau bod trefniadau addas a digonol wedi eu gwneud i oruchwylio iechyd gweithwyr. Bydd rheolwyr llinell yn cyfeirio gweithwyr at yr Adran Iechyd Galwedigaethol i gael eu hasesu. Gall yr Adran Iechyd Galwedigaethol roi cyngor i reolwyr a gweithwyr ar yr isod:

- Rhaglen glywed addas

- Sut i sefydlu rhaglen
- Rhoi adroddiadau i'r cyflogwr ynghylch ffitrwydd y gweithwyr i barhau i weithio mewn amgylchedd lle maent yn agored i sŵn
- Rhoi gwybodaeth i weithwyr ynghylch cyflwr eu clyw, gan gynnwys eu canlyniadau, a chynghor cyffredinol ynghylch sut i ofalu am eu clyw

Os yw trefniadau goruchwyllo iechyd wedi dangos bod gweithwyr wedi cael niwed i'w clyw / colli eu clyw yna bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud yn siŵr y bydd yn:

- Adolygu'r asesiad risg sŵn;
- Symud y gweithwyr i waith arall lle nad oes risg sŵn neu ddim ond risg isel;
- Sicrhau bod cofnodiadau gweithwyr ar gael iddynt;
- Gweithredu ar unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Adran Iechyd Galwedigaethol;
- Sicrhau y cyfeirir unrhyw weithwyr y tybir bod eu clyw wedi'i niweidio at feddyg, i sicrhau eu bod yn cael cynghor gan swyddog proffesiynol yn y maes iechyd galwedigaethol;

### **Rheoliad 10: Gwybodaeth, Cyfarwyddiadau a Hyfforddiant**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant i weithwyr mewn perthynas â sŵn, fel bod yr holl weithwyr yn deall y risgiau y gallant fod yn agored iddynt. Caiff y gweithwyr wybod am yr isod:

- Y tebygolrwydd o fod yn agored i sŵn a'r risg i'r clyw.
- Yr hyn y bydd y cyngor yn ei wneud i reoli risgiau a'r cyfnodau pryd bydd gweithwyr yn agored i sŵn.
- Yn lle a sut y gall gweithwyr gael offer diogelu clyw.
- Hyfforddiant ar gyfer dewis a ffitio offer diogelu clyw.
- Sut i roi gwybod am ddiffygion mewn offer diogelu clyw ac offer rheoli sŵn.
- Rhoi gwybod i weithwyr am eu dyletswyddau dan Reoliadau Sŵn 2005.
- Yr hyn y dylai gweithwyr ei wneud i ostwng risgiau i'r eithaf, e.e. y ffordd gywir i ddefnyddio offer diogelu clyw ac offer rheoli sŵn. Sut i gadw a gofalu am yr offer a lle i'w defnyddio.
- Systemau goruchwyllo iechyd.

## 5.0 Cyfrifoldebau

### **Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Un**

Y Prif Swyddog Gweithredol yw'r person sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Dylai y Prif Swyddog Gweithredol (Dirprwy Swyddog Gweithredol) Cyngor Sir Ynys Môn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r drefn hon a gweithredu'r Gweithdrefn Sŵn yn eu meysydd gwasanaeth.

### **Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Dau**

Rhaid i'r holl reolwyr lefel dau sicrhau bod rheolwyr llinell a gweithwyr yn cael gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant digonol mewn perthynas â sŵn. Dylai rheolwyr atal neu ostwng risgiau iechyd a diogelwch i weithwyr sy'n agored i sŵn.

### **Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Tri**

Mae angen i reolwyr lefel tri asesu'r risgiau i weithwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd swnllyd. Lle nodwyd peryglon sŵn, rhaid cynnal asesiad risg sŵn. Dylai'r asesiad risg sŵn nodi lle mae risg yn sgil sŵn a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio. Dylai gynnwys amcangyfrif dibynadwy o ba mor aml y mae gweithwyr yn agored i sŵn, a chymharu hynny gyda'r terfynau sŵn a'r lefelau gweithredu.

Bydd Rheolwyr yn cymryd camau i sicrhau nad yw gweithwyr yn agored cymaint i'r sŵn sy'n peri'r risgiau. Bydd rheolwyr yn darparu offer diogelwch clyw ar gyfer gweithwyr oni fedrant ddefnyddio dulliau eraill i sicrhau nad yw gweithwyr yn agored cyn amled i effaith sŵn. Rhaid sicrhau nad yw'r lefelau sŵn yn uwch na'r terfynau cyfreithiol.

Bydd gweithwyr yn cael gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant ynghylch sŵn. Bydd Rheolwyr yn nodi unrhyw weithwyr y mae angen darparu trefniadau goruchwylio iechyd ar eu cyfer ac yn nodi a oes risg benodol iddynt. Rhaid i Reolwyr sicrhau eu bod yn glynu wrth yr isod:

- Sicrhau y cynhelir asesiadau risg addas a digonol ar gyfer sŵn.
- Asesu'r offer diogelu a brynir ar gyfer y lefelau sŵn rhesymol isaf.
- Darparu offer diogelu clyw i weithwyr, ar gais, pan fo lefelau sŵn yn uwch na 80dB (A) am gyfnod o 8-awr, a phan fo pwysau sŵn uchaf yn 135dB (C).
- Sicrhau trefniadau goruchwylio iechyd arferol ar gyfer sŵn pan fo'r asesiad risg sŵn yn nodi risg i iechyd gweithwyr.
- Trefnu a darparu camau sgrinio iechyd cyn-cyflogaeth ar gyfer yr holl weithwyr newydd sydd mewn 'perygl'.



- Sicrhau bod gweithwyr sydd 'mewn perygl' o fewn eu gwasanaethau yn cael gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant addas ar risgiau sŵn a'r trefniadau rheoli priodol.
- Adolygu'r asesiad risg sŵn gyda'r nod o gywiro unrhyw broblemau a gweithredu unrhyw welliannau.

### **Gweithwyr**

Rhaid i weithwyr gydweithredu gyda rheolwyr a sicrhau eu bod yn defnyddio'r dyfeisiau rheoli sŵn a'u bod yn dilyn unrhyw arwyddion gweithio diogel a sefydlwyd. Rhaid sicrhau bod gweithwyr yn gwisgo unrhyw offer diogelu clyw a roddwyd iddynt, bob amser y maent yn gwneud gwaith swllyd a phan fônt mewn ardaloedd diogelu clyw.

- Dylai gweithwyr roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'u hoffer diogelu clyw neu ddyfeisiau rheoli sŵn ar unwaith. Rhaid i weithwyr sicrhau eu bod yn glynu wrth yr isod;
- Cydweithredu gyda'r Weithdrefn Sŵn a'r Canllawiau cysylltiedig. Gwisgo unrhyw offer diogelu clyw personol a ddarparwyd;
- Rhoi gwybod i'w rheolwyr llinell am unrhyw effeithiau andwyol ar eu hiechyd all fod yn gysylltiedig â bod yn agored i sŵn;
- Rhoi gwybod i'w rheolydd llinell am unrhyw ddiffygion mewn offer gwaith, gan gynnwys Offer Gwarchod Personol. Rhaid gofalu am yr offer diogelu clyw a rheoli sŵn y maent yn eu defnyddio.

### **Rhagor o wybodaeth**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar est 01248 752820.